# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 3 Hydref 2013** |
| Amser: | **09:00 – 11:55** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_03_10_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan** |
| Tystion: | **Angela Burns, Comisiynydd**<br>**Nicola Callow, Pennaeth Cyllid**<br>**Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**<br>**Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu**<br>**David Meaden, PSOW**<br>**Peter Tyndall, Public Services Ombudsman for Wales** |
| Staff y Pwyllgor: | **Gareth Price (Clerc)**<br>**Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Eleanor Roy (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Simon Thomas. Nid oedd neb yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2014-15

2.1 Roedd Peter Black AC yn absennol ar gyfer yr eitem hon gan ei fod yn aelod o Gomisiwn y Cynulliad.

2.2 Holodd yr Aelodau y tystion a ganlyn am Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad: Angela Burns AC, Comisiynydd; Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad; a Nicola Callow, Pennaeth Cyllid.

2.3 Gofynnodd y Pwyllgor i Angela Burns AC ddarparu gwybodaeth bellach ar y ffigurau ar gyfer buddsoddi mewn TGCh a'r meysydd y byddai'r arian hwn yn cael ei fuddsoddi ynddynt.

2.4 Gofynnodd y Pwyllgor i Angela Burns AC ddarparu nodyn ar nifer y ceisiadau gan ysgolion sydd am ymweld â'r Cynulliad sy'n cael eu gwrthod, gan gynnwys dadansoddiad daearyddol o'r wybodaeth hon.

## 3 Craffu ar amcangyfrif drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

3.1 Holodd yr Aelodau y tystion a ganlyn am yr amcangyfrif drafft: Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu; a David Meaden, Cynghorwr Ariannol.

## 4 Papurau i’w nodi

4.1 Nodwyd y papurau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod y dystiolaeth a gafwyd

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2014-2015.

6.2 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar amcangyfrif drafft yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus.

6.3 Bydd y Pwyllgor yn trafod adroddiadau drafft ar y ddwy gyllideb yn ystod y cyfarfodydd dilynol.

## 7 Adroddiad Alldro Llywodraeth Cymru 2012-13: Trafod yr Adroddiad

7.1 Nododd yr Aelodau y papur.

## 8 Sesiwn friffio gychwynnol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru

8.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan Angela Scott, Cynghorwr Arbenigol.